

Taith 1

Rhaeadr Aber ac yn ôl.

Rhaeadr Aber yw un o'r golygfeydd naturiol yng Ngogledd Cymru sy'n denu fwyaf o ymwelwyr, ac mae'r daith gerdded un ai o'r maes parcio am ddim ar waelod y pentref, neu o un o'r meysydd parcio lle codir tâl ond sy'n nes at y Rhaeadr, yn cymryd tua 2 - 2½ awr yno ac yn ôl.

Os byddwch yn defnyddio'r maes parcio yn y pentref, gallwch fynd i mewn i'r pentref trwy'r ganolfan ymwelwyr fechan yn y Tŷ Pwmp a pharhau yn eich blaenau ar hyd ffordd y pentref gan fynd heibio i'r hyn a fu'n hen felin ar y chwith i chi.



Cerddwch ymlaen ar hyd y ffordd sy'n gorwedd yn agos at Afon Aber nes i chi gyrraedd maes parcio Rhaeadr Aber. O'r fan honno, mae llwybr troed gydag arwyddion clir yn arwain i fyny'r dyffryn at y rhaeadr. Pe baech yn defnyddio car hyd at y pwynt yma, mae yna faes parcio arall i'w gael trwy droi i'r chwith dros y bont ac yna i'r dde. Codir tâl o £2 yn y ddau faes parcio.

Mae'r llwybr mewn cyflwr da, ac mae'n esgyn yn raddol nes cyrraedd y rhaeadr, ac mae yna ddewis arall o lwybr wedi ei arwyddo i'r chwith sy'n arwain trwy goedwig fytholwyrdd ac ar hyd trac caregog byr cyn ail-ymuno â'r prif lwybr yn ymyl y rhaeadr.

Y ffordd arferol i ddychwelyd yw mynd yn ôl y ffordd y daethoch.

Taith 2

Taith gron Rhaeadr Aber

Dechreuwch eich taith fel Taith 1 ond ymestynnwch eich taith i greu taith gron.

O'r Rhaeadr, dewch yn ôl rhyw ychydig ac ewch i lawr y llwybr i groesi'r afon dros bont bren newydd ac yna dringo'r ochr arall i ymuno â llwybr garw sy'n rhedeg gyda brig y dyffryn gan groesi nant fechan islaw rhaeadr lai.

Dilynwch y llwybr hwn wrth iddo droi tua'r gogledd ar hyd ymyl dwyreiniol y dyffryn. Mae'r llwybr yn esgyn yn raddol nes i chi weld llwyn o goed bytholwyrdd tywyll ary chwith i chi, ac yna yn y diwedd at glwyd sy'n arwain at ffordd sydd wedi ei hadeiladu'n rhannol.

Ewch i lawr y ffordd hon am ryw 5 munud ac fe wewlch arwydd yn cyfeirio at lwybr cul a serth sy'n arwain i lawr i'r pentref yn ymyl yr Hen Felin.

Mae yna lwybr llai serth ond hwy i'w gael trwy barhau ymlaen ar hyd y ffordd.